BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SMITHFIELD ROAD A'R U4224, Y DRENEWYDD, POWYS) 2010

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r rhannau o briffordd ond er mwyn galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod yr oriau agor arferol yn Llyfrgell Ardal y Drenewydd, Park Lane, Y Drenewydd, Powys neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef CZ510-5-6-qA773520/1.

Caiff unrhyw berson sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf;

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 5 Mawrth 2010, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchmynion Cau TCPA/2010).

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

### YR ATODLENNI
### ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw, sydd wedi'i chategoreiddio'n U4224, yn 272 o fetrau o hyd yn ei man hiraf a 10 metr o led yn ei man lletaf, sy'n ymestyn o bwynt 15 o fetrau i'r dwyrain o Kerry Road i bwynt 77 o fetrau i'r de-ddwyrain o Pool Road (a ddynodwyd yn A ar y plan a adneuwyd).

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw, sy'n 48 o fetrau o hyd yn ei man hiraf ac 16 o fetrau o led yn ei man lletaf, sy'n ymestyn o bwynt 6 metr i'r de o'i chyffordd â Pool Road i bwynt 54 o fetrau i'r de-ddwyrain o Pool Road (a ddynodwyd yn B ar y plan a adneuwyd).

### ATODLEN 2

Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu.

Darn o droetffordd/llwybr beiciau a rhan o briffordd, afreolaidd ei siâp, sy'n mesur 450 o fetrau sgwâr ac sy'n ymestyn o ben de-ddwyreiniol Sheaf Street i Pool Road (a ddynodwyd yn C ar y plan a adneuwyd).

Rhan o briffordd, afreolaidd ei siâp, i'r de-ddwyrain o Pool Road, sy'n mesur 2,395 o fetrau sgwâr, a fydd yn ffurfio cyffordd newydd â signalau, y ffordd fynediad newydd i'r datblygiad a lledu rhan o'r U4224 (a ddynodwyd yn D ar y plan a adneuwyd).

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd a throetffordd, sy'n mesur 22 o fetrau sgwâr, ac sy'n gyfagos â Rhif 8 Maesderwen (a ddynodwyd yn E ar y plan a adneuwyd).

Rhan o briffordd sydd â siâp petryal fwy neu lai, ac sy'n mesur 141 o fetrau sgwâr, i'r dwyrain o'r U4224 (a ddynodwyd yn F ar y plan a adneuwyd).

### ATODLEN 3

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella.

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Pool Road ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain o bwynt i'r gogledd o Rif 5 Smithfield Houses i bwynt i'r gogledd o Rif 8 Maesderwen, gan gynnwys darn o'r U4224 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Pool Road, tua'r dde-ddwyrain am 80 o fetrau, oll yn mesur 1,705 o fetrau sgwâr (a ddynodwyd yn G ar y plan a adneuwyd).

### ATODLEN 4

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig.

Codi siop fanwerthu a gorsaf betrol Tesco gyda chyfleusterau cysylltiedig o ran maes parcio, gwneud newidiadau i'r briffordd a gwaith atodol ar safle cyn Farchnad Smithfield a'r depo bysiau yn y Drenewydd, Powys yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Sir Powys ar 18 Chwefror 2009 o dan gyfeirnod M/2006/0510.

**GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.**

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (SMITHFIELD ROAD AND THE U4224, NEWTOWN, POWYS) ORDER 2010

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 247 of the Town and Country Planning Act 1990, to authorise the stopping up of the areas of highway described in Schedule 1 to this Notice, to provide the new areas of highway described in Schedule 2 to this Notice and to improve the area of highway described in Schedule 3 to this Notice.

The stopping up is authorised only in order to enable the development described in Schedule 4 to this Notice to be carried out. The Order ceases to have effect if the planning permission expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected during normal opening hours at Newtown Library, Park Lane, Newtown, Powys or may be obtained free of charge from the address below quoting the Welsh Assembly Government reference CZ510-5-6-qA773520/1.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any of the provisions contained therein, on the grounds:

a. that it is not within the powers of the Town and Country Planning Act 1990; or

b. that their interests have been substantially prejudiced by a failure to comply with any of the requirements of the Act;

that person may, within 6 weeks of 5 March 2010, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at www.wales.gov.uk (select: Legislation/Subordinate Legislation/ Non-Statutory Instruments/Transport, Wales/TCPA Stopping Up Orders/2010).

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

### SCHEDULES
### SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

Description of the areas of highway to be stopped up under this Order.

An irregularly shaped area of unnamed highway categorised as the U4224, with a maximum length of 272 metres and a maximum width of 10 metres, which extends from a point 15 metres east of Kerry Road to a point 77 metres south east of Pool Road (identified as A on the deposited plan).

An irregularly shaped area of highway known as Smithfield Road, with a maximum length of 48 metres and a maximum width of 16 metres, that extends from a point 6 metres south of its junction with Pool Road to a point 54 metres south east of Pool Road (identified as B on the deposited plan).

### SCHEDULE 2

Description of the new highways to be provided.

A length of footway/cycleway and irregularly shaped area of highway, measuring 450 square metres, that extends from the south eastern end of Sheaf Street to Pool Road (identified as C on the deposited plan).

An irregularly shaped area of highway to the south east of Pool Road, measuring 2,395 square metres, which will form a new signalised junction, the new access road to the development and the widening of part of the U4224 (identified as D on the deposited plan).

An irregularly shaped area of highway and footway, measuring 22 square metres, adjacent to No.8 Maesderwen (identified as E on the deposited plan).

A roughly rectangular area of highway, measuring 141 square metres, to the east of the U4224 (identified as F on the deposited plan).

### SCHEDULE 3

Description of the highway to be improved.

An irregularly shaped area of highway known as Pool Road that extends in a north easterly direction from a point north of No. 5 Smithfield Houses to a point north of No.8 Maesderwen, including a length of the U4224 that extends from its junction with Pool Road in a south easterly direction for 80 metres, all measuring 1,705 square metres (identified as G on the deposited plan).

### SCHEDULE 4

Description of the proposed development.

The erection of a Tesco retail store and petrol station with associated car parking facilities, highway alterations and ancillary works at the former Smithfield Market site and bus depot in Newtown, Powys in accordance with planning permission granted by Powys County Council on 18 February 2009 under reference M/2006/0510.

**A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.**